



Dechrau wrth fy nhraed



Cydweithio a'r rhieni

- Mae'r ysgol yn sicrhau eu bod yn cadw mewn cyswllt gyda'r rhieni yn gadael gwybod am y pethau sydd yn mynd ymlaen trwy anfon llythyron allan. Mae hyn yn sicrhau fod y rhieni yn gyfforddus ac yn ymwybodol am y digwyddiadau.
- Mae asesiadau yn cael eu cynnal ar ddechrau pob blwyddyn ysgol i brofi am anghenion dysgu ychwanegol ac yna fydd y rhieni yn cael ei gysylltu gydag i gymryd y mater yn bellach.
- Mae 60% o blant sy'n mynychu ysgolion trwy gyfrwng y Gymraeg yn dod yn wreiddiol o gartrefi Saesneg (Marshal 2023). Er mwyn cael gwared â'r gwahaniaeth a rhwystrau ieithyddol mae'r ysgol yn cynnal gwersi Cymraeg i'r rhieni.
- Wythnos "dewch a rhiant i'r ysgol" lle bu rhieni'r plant yn cael y cyfle i ddod i'r ysgol a gweld a phrofi bywyd ysgol y plant.
- Mae'r rhiant llywodraethwyr yn ymweld â'r ysgol pob tymor, mae'n gadael i'r rhieni cael rhywfaint o farn a phŵer dros beth sy'n digwydd o fewn yr ysgol.
- Mae yna arddangosfeydd o gwmpas yr ysgol o waith ysgol y plant. Gall y rhieni edrych ar yr arddangosfeydd yma a chael gwell syniad o'r tasgau sy'n cael ei chwblhau.
- Yn aml, yr unig waith neu ddarllen mae'r plant yn gwneud yn unig yn y dosbarth. Er mwyn cydweithio gyda'r rhieni a chodi ymwybyddiaeth o waith cartref mae yna lyfrau thema neu fathemateg yn cael ei anfon adref pob hanner tymor i ddarllen gyda'r rhieni neu ofalwyr.
- Cyfleoedd i'r rhieni i ymadrodd a rhannu ei arbenigedd gyda'r dosbarth, trwy wneud hyn fydd yn sicrhau perthynas fwy agos rhwng y disgyblion a'r rhieni gan ei fod yn rhannu rhan o'i fywyd gyda nhw.
- Fel bod y rhieni yn gallu cymdeithasu gyda'i gilydd a'r athrawon mae yna foreau coffi yn yr ysgol ar arddegau i gael cynefindra gyda'r bobl o gwmpas.
- Mae gan yr ysgol polisi drws agored gyda'r rhieni, bydd hyn yn golygu fod y rhieni gyda'r hawl i gael apwyntiad i godi mater ar gais sy'n sicrhau fod cyfathrebiad clir rhwng yr athrawon dosbarth a'r rhieni dan sylw.
- Yn y noson agored a noson gosod targedau mae'n caniatáu cynnydd yn addysg y plentyn a hefyd siawns i drafod sut mae'r plant yn gwneud yn addysgol a hefyd yn gyffredinol gyda'r rhiant o'r plentyn sy'n cael ei thrafod.
- 'Early help hub'- y cyfle i dderbyn cymorth er mwyn gwella'r ansawdd fywyd am y teuluoedd sydd angen hynny. Mae'r ysgol yn hybu'r elusen yma i sicrhau does dim rhieni a phlant yn dioddef yn dawelwch.
- Mae gan yr ysgol 'Cytundeb Cartref/ Ysgol' sy'n golygu fod yna disgwyliadau mae'r rhieni yn cael wrth ofalu a hefyd i'r ysgol i ddarparu addysg a safonau da.



Cyllid

- Mae tua 7% o blant yn yr ysgol yma yn derbyn prydau ysgol am ddim. mae'n sicrhau fod y plant yn cael o leiaf un pryd o fwyd iachus mewn diwrnod ac i helpu'r bobl sydd methu fforddio digon o fwyd. Mae yna wefan clir wedi'i atodi ar y wefan ysgol i geisio am brydau ysgol am ddim.
- Mae gan y sir mae'r ysgol ynddo, grant arian i helpu'r gofalwyr i dalu am wisg ysgol sydd yna am y bobl sydd angen.

Cydweithio a'r cymdeithas

- Mae'r côr ysgol yn ymweld â'r cartref henoed a pherfformio ei chanu i'r preswylwr, mae'n codi hwyliau'r bobl hen ac yn hefyd rhoi siawns i'r disgyblion i weld gwahanol rannau o'r gymdeithas.
- Mae ymweliadau gan un o'r heddlu lleol, PC Rob, sy'n dod pob hanner tymor. Mae'n rhoi'r plant y cyfle i gael syniad gwell ar y swyddi sy'n mynd o'i gwmpas yn yr ardal a hefyd i gael sbri yn trio'r dillad ymlaen.
- Mae'r ysgol hefyd yn gweithio gydag elusennau fel y birchgrove foodbank a'r eglwys casgliad i'r digartref. Mae'n helpu dysgu'r plant am y problemau sy'n mynd ymlaen yn y gymuned a hefyd yn codi arian a helpu'r elusennau sydd angen y cymorth i ddarparu'r help sydd angen.
- Mae CAMS yn dod i'r ysgol yn wythnosol i gefnogi'r plant sy'n dioddef o wahanol broblemau iechyd meddwl, mae hyn yn enghraifft o'r ysgol yn rhoi cymorth gyda help o agweddau o'r gymuned.
- Mae'r plant yn cael cyfle i ymweld â gwahanol leoedd yn y gymuned fel y traeth a'r goedwig, sy'n sicrhau fod y plant yn cael awyr iach a gweld gwahanol agweddau o'r ardal leol.
- Er mwyn codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ehangach o dlodi mae'r plant yn ymweld a rhoi cymorth yn y banc bwyd lleol.
- Ymweliadau o weithwyr hanfodol i'r ysgol sy'n darparu hwyl i'r plant yn dysgu am y swyddi pwysig o gwmpas yn y gymuned.

Ffeithiau ychwanegol

- Mae'r ysgol yn cynnwys disgyblion o'r oedrannau 3-11.
- Mae'r ysgol wedi lleoli ar y ffin o'r pentref Llansamlet a tua milltir i ffwrdd o'r M4.
- Mae gan yr ysgol 'clwb brecwast' sy'n dechrau cyn oriau arferol yr ysgol.
- Ar dir yr ysgol mae yna ardal coedwig ble mae rhai gwersi yn cymryd lle ynddo.



Cyfnod sylfaen

- Mae'r plant yn y cyfnod sylfaen yn cael eu hanfon adref gyda 'Llyfr Cyswllt Cartref'. Mae'r llyfr yma gyda nodiadau neu negeseuon rhwng yr ysgol a'r tŷ, fel pryderon neu gyflawniadau. Mae'n dangos i ni, a'r rhieni fod yr ysgol yn ymdrechu i gadw mewn cyswllt o'r ddechrau.
- Gwelwn hefyd fod apwyntiadau yn digwydd gyda'r dosbarth meithrin i gynnal arolwg ar ei chorff, gan edrych ar eu taldra, pwysau a'u golwg. Mae hyn yn rhoi gwybodaeth i'r teulu, a'r ysgol a hefyd gweld os bu angen rhagor o gymorth. Mae'n dangos fod yr ysgol gyda diddordeb yn y plant fel unigolion.